S4/C

Datganiad Polisi Caffael S4C
Dyddiad cyhoeddi: 28 Ionawr 2010

Cyhoeddwyd – Rhagfyr 2007
Adolygiad A – Tachwedd 2008
Adolygiad B – Ionawr 2010

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Awdurdod S4C wedi mabwysiadu Polisi Masnachu Teg er mwyn sicrhau bod y modd mae S4C yn ymwneud â'i chyflenwyr a rhan ddalwyr yn cyd-fynd â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol perthnasol bob amser, yn ogystal â'r egwyddorion masnachu teg a amlinellir yn y polisi hwnnw.

1.2 Mae gan S4C Strategaeth Gaffael sy'n amlinellu'r egwyddorion sy'n gysylltiedig â chaffael nwyddau a gwasanaethau yn S4C. Mae'r Strategaeth yn esbonio'r ffordd mae caffael yn cefnogi'r nodau ac amcanion corfforaethol cyffredinol ac awydd S4C i gynnal a datblygu'n effeithiol, prosesau caffael trefnus a chadarn.

1.3 Fel corff cyhoeddus, mae Awdurdod S4C yn rhwym i ddarpariaethau Rheoliadau Caffael Cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd a ddaeth i rym yn y DU gan Reoliadau Cytundebau Cyhoeddus 2006 (y 'Rheoliadau'). Gofynna'r Rheoliadau hyn i gyrff cytundebu gydymffurfio â rheoliadau sy'n ymwneud â'r ffordd y bydd gweithiau, nwyddau a gwasanaethau amrywiol yn cael eu caffael.

1.4 Mae rhai eithriadau i'r Rheoliadau gan gynnwys pryniannau, datblygu, cynhyrchu neu gyd-gynhyrchu deunydd rhaglenni neu brynu amser darlledu. Fodd bynnag, mae Polisi Masnachu Teg Awdurdod S4C yn nodi bydd gweithgareddau comisiynu S4C yn cydymffurfio ag egwyddorion cyffredinol y Rheoliadau.

1.5 Mae Datganiad Polisi Caffael S4C yn amlinellu'r dulliau caffael mae S4C yn ei defnyddio wrth gyflawni ei Strategaeth.

2. Nodau Allweddol

2.1 Cynlluniwyd elfennau craidd Datganiad Polisi Caffael S4C er mwyn sicrhau bod:

- 2.1.1 S4C yn cynnal ei nod allweddol o hyrwyddo rhagoriaeth;
- 2.1.2 S4C yn cael gwasanaethau a chyflenwadau sy'n cynrychioli gwerth gorau gan sicrhau felly'r defnydd mwyaf effeithlon o arian cyhoeddus;
- 2.1.3 S4C yn gweithredu arfer gorau, gan leihau'r baich gweinyddol;
- 2.1.4 S4C yn hyrwyddo amrywiaeth ac osgoi gwastraff; a bod
- 2.1.5 S4C yn hyrwyddo cystadleuaeth er mwyn asesu'r farchnad yn barhaus

2.2 Mae dulliau caffael wedi eu dyfeisio a'u datblygu er mwyn sicrhau gwerth gorau drwy'r broses caffael fwyaf priodol a chost effeithiol. Mae'r dulliau sydd ar gael i S4C yn cynnwys trefniadau electroneg o gaffael, cardiau credyd a chytundebau.

2.3 Mae'r dulliau caffael a ddefnyddir gan S4C yn ddibynnol ar werth y cytundeb yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, bydd egwyddorion allweddol S4C o dryloywder, atebolrwydd, cydraddoldeb, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a phroffesiynoldeb yn cael eu defnyddio ym mhob achos.

3. Dulliau Caffael a Ddefnyddir gan S4C

3.1 Defnyddir y canllawiau mewnol canlynol ar gyfer caffaeliadau:

Trothwy *	Dull Caffael
Hyd at £1,000 (ac eithrio deunydd rhaglenni)	Rhaid sicrhau gwerth gorau trwy ddod i adnabod marchnad y cynnyrch sy'n cael ei gaffael. Rhaid i hyn gael ei gofnodi.

Trothwy *	Dull Caffael
Rhwng £1,000 a £50,000 (ac eithrio deunydd rhaglenni)	Dylid sicrhau gwerth gorau trwy brofi'r farchnad a chael o leiaf tri phris gan wahanol gyflenwyr. Rhaid cadw cofnod o'r holl brisiau gan gynnwys y swm a nodwyd, y nwyddau neu wasanaethau sy'n gysylltiedig â'r prisiau a dderbynnir, am ba hyd y mae'r pris a ddyfynnir yn dal yn weithredol, unrhyw delerau neu amodau arbennig, unrhyw ystyriaethau eraill sy'n berthnasol i'r pryniant, megis ansawdd, fformat, allbwn neu derfynau amser a'r rhesymau dros ddewis un cyflenwr yn hytrach na'r llall.

Trothwy *	Dull Caffael
Dros £50,000 (ac mewn cysylltiad â deunydd rhaglenni)	I'w tendro'n gystadleuol bob 3 blynedd o leiaf. Gellir ymestyn y cyfnod yma gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw. Gall tendrau fod yn agored (wedi eu hysbysebu) neu'n wahoddedig. Bydd tendrau sy'n cael eu hysbysebu yn ymddangos ar safle Tendr gwefan S4C - www.s4c.co.uk. Pan wahoddir tendr, rhaid gwahodd lleiafswm o 2 cyflenwr i dendro er y dylai deiliaid cyllidebau geisio dod o hyd i o leiaf 4 cyflenwr. Rhaid cadw cofnod o'r gwahoddiadau i dendro a anfonir at gyflenwyr. Os yw cyflenwyr yn dewis peidio ag ymateb, dylid gofyn am reswm a chofnodi hyn. Dylid llunio manyleb ar gyfer y gwasanaeth neu'r nwyddau i'w cytundebu a dylid darparu gwybodaeth briodol. Dylai staff anelu at safoni'r gwahoddiad i dendr. Dylid diffinio meini prawf gwerthuso cyn cyhoeddi gwahoddiad i dendro, a chyhoeddi'r marciau asesu ar gyfer pob criteria. Dylid gosod dyddiadau cau ar gyfer derbyn tendrau. Mae'n arferol dychwelyd tendrau i S4C mewn fformat electroneg i gyfeiriad e-bost penodedig sy'n nodi'n glir y cytundeb y mae'r tendr yn cyfeirio at. Rhaid i o leiaf dau berson gofnodi'r tendrau wrth iddynt gyrraedd, a dylai un ohonynt fod yn annibynnol o'r broses dendr. Bydd tendrau'n cael eu gwerthuso yn unol â'r meini prawf gwerthuso y penderfynwyd arnynt ymlaen llaw a'r broses yn cael ei chofnodi.

* Mae'r ffigwr trothwy yn gyfanswm y gwerth dros gyfnod y cytundeb.

3.2 Bydd S4C yn gweithredu yn unol â'r rheolau a amlinellir yn y Rheoliadau mewn achosion lle mae'r costau a'r cytundebau sy'n berthnasol i'r Rheoliadau lle mae Rheoliadau Caffael Cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd yn berthnasol ac mae'r cytundeb â gwerth uwch na Throthwyon yr UE[1] I gael rhestr o'r cytundebau diweddar sy'n uwch na Throthwyon perthnasol yr Undeb Ewropeaidd ac wedi eu tendro, cyfeirier at y dudalen Archifau ar wefan Tendrau S4C. Fel arfer, bydd S4C yn defnyddio'r drefn "Agored" neu "Cyfyngedig" wrth gaffael o dan y rheoliadau hyn.

3.3 Mi fydd yna achosion eithriadol lle bydd nwyddau neu wasanaethau ddim ond yn gallu cael eu darparu gan un cyflenwr. Mewn achosion o'r fath dylid profi'r farchnad a'i adolygu yn gyson er mwyn sicrhau bod yna ddim cyflenwr arall yn bodoli neu fod cyflenwyr eraill ddim yn gallu cyflawni gofynion technegol neu arbennig y cytundeb. Dylid cofnodi canlyniadau'r ymchwil a dylai unrhyw benderfyniad i beidio mynd i dendr gael ei gymeradwyo. Mewn ambell sefyllfa lle mae cytundeb o werth uchel ac un ffynhonnell, efallai y byddai'n fuddiol i gynnal tendr.

3.4 Caiff gweithgareddau penodol sy'n ymwneud â darlledu, yn arbennig cynhyrchu deunydd ar gyfer rhaglenni ac amser darlledu, eu heithrio o'r trefniadau ar gyfer caffael cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys cytundebau ar gyfer caffael, datblygu, cynhyrchu neu gyd-gynhyrchu deunydd rhaglenni.

3.5 Wrth gomisiynu neu drwyddedu deunydd rhaglenni, mae perchenogaeth hawliau cynnwys creadigol yn ystyriaeth allweddol. Gan gadw hyn mewn cof, mae Polisi Masnachu Teg Awdurdod S4C yn nodi bod gweithgareddau comisiynu S4C yn cefnogi egwyddorion cyffredinol masnachu teg ac yn cydymffurfio ag egwyddorion cyffredinol y Rheoliadau.

3.6 Mae S4C yn parhau i gefnogi'r egwyddor o natur gystadleuol wrth gomisiynu deunydd rhaglenni, sef peidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal, tryloywder, cydnabyddiaeth ar y cyd a chymesuredd.

3.7 Mae'r egwyddorion sy'n diffinio perthynas S4C gyda'r sector cynhyrchu annibynnol wedi eu hamlinellu yng nghyd-destun y Cod Ymarfer, y Telerau Masnach, y Cynllun Corfforaethol ac amcanion y Strategaeth Cynnwys.

3.8 Am restr a manylion am dendrau cynnwys comisiynu cyfeirier at wefan Cynhyrchu S4C (www.s4c.co.uk/cynhyrchu).

4. Adolygu a Monitro

4.1 Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr S4C yn gyfrifol am weithredu'r Polisi hwn.

4.2 Caiff y Polisi ei gymeradwyo gan Awdurdod S4C. Bydd Awdurdod S4C yn monitro gweithrediad y Polisi hwn.

4.3 Bydd gweithredu'r Polisi hwn yn cael ei oruchwylio gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr. Bydd y Bwrdd yn cynnal adolygiad blynyddol o'r gweithgaredd caffael.

4.4 Bydd S4C yn adolygu'r Polisi o dro i dro, a phob tair blynedd o leiaf.

[1] Mae Trothwyon yr UE wedi'u hamrywio ac yn effeithiol o 1 Ionawr 2010 drwy Reolaeth Cyngor 1177/2009